We support

MARINE CONSERVATION SOCIETY | Great British Beach Clean

Ymwybodol o Adar Hafren
Bird Aware Severn

Severn Estuary Partnership
Partneriaeth Aber Hafren

# Glanhau'r traethau ar lan aber afon Hafren mewn modd cyfrifol

## Ein Hafren ysblennydd

Mae aber afon Hafren yn cynnal cynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol, ac mae'n llwybr mudo allweddol i eogiaid a rhywogaethau o bysgod sy'n brin yn fyd eang. Mae'r fflatiau llaid eang, y morfeydd heli a'r corsydd pori arfordirol yn ei gwneud yn un o'r aberoedd pwysicaf yn y DU o ran niferoedd yr adar gwyllt ac adar hirgoes, gyda thros 80,000 o adar yn ymweld â'r aber bob gaeaf. Mae'n fan allweddol ar gyfer darparu bwyd a seibiant i adar pwysig sy'n teithio'n ystod y gwanwyn a'r hydref ac yn gartref i riffiau Sabellaria alveolata, sef rhywogaeth o fwydod bach sy'n adeiladu tiwbiau sy'n ymdebygu i ddiliau mêl gan ddefnyddio gronynnau tywod!

Mae casglu sbwriel yn ffordd wych o gefnogi eich cynefinoedd a'ch rhywogaethau lleol, ond mae'n bwysig ystyried sut y gall eich gweithredoedd effeithio ar fywyd gwyllt. Tarfu yw unrhyw weithgaredd neu sŵn a allai newid ymddygiadau anifail (y ffordd y mae'n bwydo, gorffwys neu fridio) neu strwythur cynefin. Er enghraifft, gall tarfu dro ar ôl tro fygwth goroesiad adar ein haber. Gall arwain at adar yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ardal i fwydo neu glwydo a'u gorfodi i ddefnyddio cronfeydd ynni hanfodol trwy hedfan, sy'n eu dal yn ôl rhag cyrraedd mannau bridio. Os na allant fwydo digon i gwblhau eu taith, mae'n bosibl na fyddant yn goroesi'r gaeaf.

**Am ragor o wybodaeth am darfu ar adar, ewch i: birdaware.org/severn**



We support

MARINE CONSERVATION SOCIETY | Great British Beach Clean

Ymwybodol o Adar Hafren / Bird Aware Severn

Severn Estuary Partnership
Partneriaeth Aber Hafren

## Nodiadau ar gyfer trefnwyr glanhau traethau

# Cyn eich digwyddiad

- Gwiriwch a yw'r traeth yr ydych chi'n ei lanhau wedi'i warchod oherwydd nodweddion neu gynefinoedd bywyd gwyllt arbennig. Gallwch wirio drwy gysylltu â Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig), Natural England neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Sicrhewch eich bod yn dilyn canllawiau dynodiadau.

- Pan fyddwch yn gofyn am ganiatâd ar gyfer eich digwyddiad glanhau traeth gan y cyngor neu berchennog y tir, gofynnwch a oes unrhyw gynefinoedd neu rywogaethau sensitif hysbys.

- Ceisiwch gynnal eich digwyddiad glanhau ddwy awr ar ôl y llanw uchel. Osgowch y cyfnod sydd o fewn dwy awr cyn ac ar ôl y llanw uchel bob amser.

- Ychwanegwch awgrymiadau at ddogfennau’r asesiad risg a’r nodiadau briffio sydd eisoes yn bodoli.

- Cofiwch atgoffa’r rhai sy’n cymryd rhan os ydynt yn dod â chi gyda nhw, fod yn rhaid iddynt ei gadw wrth eu hochor, o dan reolaeth, ac ar dennyn byr os oes angen.

- Cadwch rifau gwasanaethau achub bywyd gwyllt wrth law, rhag ofn.

- Paratowch sesiwn friffio ymlaen llaw ar gyfer y rhai sy’n cymryd rhan a dewch â’r wybodaeth gyda chi i'r digwyddiad.



We support
MARINE CONSERVATION SOCIETY | Great British Beach Clean

Ymwybodol o Adar Hafren
Bird Aware Severn

Severn Estuary Partnership
Partneriaeth Aber Hafren

# Ymweliad â'r safle cyn y digwyddiad

Cwblhewch wiriad am gynefinoedd bywyd gwyllt cyn y digwyddiad. Dylai eich ymweliad cyn y digwyddiad gael ei gynnal pan fydd y llanw ar yr un lefel ag y bydd yn ystod eich digwyddiad glanhau arfaethedig, ac o fewn wythnos i'r digwyddiad.

Cynlluniwch y llwybr y bydd eich grŵp yn ei ddilyn pan fyddant yn cyrraedd y safle glanhau. Sicrhewch eu bod yn dilyn ceisiadau ar arwyddion ac na fydd angen iddynt gerdded ar gynefinoedd sensitif megis graean mân â llystyfiant, riffau sabellaria neu forfeydd heli.

Nodwch y bywyd gwyllt sensitif posibl ar eich safle gan ddefnyddio'r canllaw isod (byddai ysbienddrych yn ddefnyddiol ar gyfer hyn!)

### Adar sy'n gorffwys

Caiff traethau, tafodau ac ynysoedd graeanog, yn ogystal â strwythurau artiffisial megis glanfeydd, eu defnyddio gan adar sy'n gorffwys. Mae'n bosib eu bod wedi'u cuddliwio.

### Adar sy'n bwydo

Mae cynefinoedd fflatiau llaid a morfeydd heli yn fannau bwydo hanfodol. Bydd adar i'w gweld ger y dŵr yn bennaf.

### Adar sy'n nythu (rhwng mis Ebrill a mis Medi)

Efallai y byddwch yn gweld bod rhannau o'r traeth wedi'u cau neu wedi'u marcio ag arwyddion lle mae adar yn nythu ar y ddaear. Osgowch lanhau gerllaw'r ardaloedd hyn.

### Planhigion morol neu arfordirol bregus

Gofalwch am blanhigion morol ar draethau ac mewn lleoliadau mwy cysgodol sy'n cynnal planhigion arbenigol iawn.

Os byddwch yn teimlo bod eich safle'n sensitif iawn, cyfyngwch ar nifer y gwirfoddolwyr glanhau, os yn bosibl, er mwyn lleihau'r siawns y byddwch yn tarfu ar fywyd gwyllt.

We support

MARINE CONSERVATION SOCIETY | Great British Beach Clean

Ymwybodol o Adar Hafren
Bird Aware Severn

Severn Estuary Partnership
Partneriaeth Aber Hafren

# Sesiwn friffio cyfranogwyr ar fywyd gwyllt

Cofiwch atgoffa'r rhai sy'n cymryd rhan os ydynt yn dod â chi gyda nhw, fod yn rhaid iddynt ei gadw wrth eu hochor, o dan reolaeth, ac ar dennyn byr os oes angen.

Atgoffwch y rhai sy'n cymryd rhan y gallai darnau mwy o sbwriel a malurion fod wedi dod yn gynefinoedd i fywyd gwyllt. *Dylent wirio'n ofalus iawn cyn eu codi neu eu symud, gan gofio y gallai anifeiliaid bach fod yn cuddio mewn agennau.*

Gofynnwch iddynt adael eitemau naturiol ar y safle. *Mae eitemau megis cregyn, plu, esgyrn ystifflogod a phlanhigion yn cyfoethogi cynefin.*

Cynghorwch nhw i droedio'n ofalus. *Gwyliwch ble maent yn rhoi eu traed er mwyn osgoi niweidio llystyfiant.*

Gofynnwch iddynt ddilyn y cyfarwyddiadau ar yr arwyddion. *Cadwch at lwybrau os oes rhai yn bodoli.*

Sbwriel gweladwy yn unig a ddylai gael ei godi.

Osgowch droi pethau drosodd a chloddio am sbwriel.

Atgoffwch nhw i'ch holi chi os ydynt yn ansicr. *Er enghraifft, dylent eich holi chi cyn tynnu deunydd sydd ag unrhyw beth yn tyfu arno.*

Cerddwch wrth ochr deunyddiau'r traethlin yn hytrach nag arnynt. (Crynhoad o falurion naturiol, megis cregyn a gwymon, sy'n ffurfio pan fydd y llanw'n cyrraedd ei bwynt uchaf ar y lan).

Gadewch wymon ac eitemau naturiol eraill yn eu lle a pheidiwch a'u haflonyddu.

**Mae traethlinau (marciau dŵr uchel) yn gynefinoedd pwysig i lawer o greaduriaid bach ac yn fan bwydo hanfodol i adar.**